Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

19.3.19

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Eisteddfod yr Urdd – Dyma'r dyddiadau ar gyfer yr eisteddfodau amrywiol a gynhelir dros yr wythnosau nesaf.

Eisteddfod Ddawns Cylch (Theatr y Stiwt) – 20.3.19
Eisteddfod Gylch (Ysgol I D Hooson) – 23.3.19
Eisteddfod Sir (Ysgol Gwynedd, Sir Fflint) – 6.4.19
Eistedfod Ddawns y Sir (Neuadd Williams Aston) – 3.4.19

Dymunwn pob lwc i'r holl blant fydd yn cystadlu yn y cystadlaethau amrywiol.

Nosweithiau Rhieni– Edrychwn ymlaen i'ch croesawu fel rhieni a gofalwyr i'r ysgol i gyfarfod gyda'r athrawon dosbarth ar gyfer trafod cynnydd eich plentyn yr wythnos nesaf. Cynhelir y nosweithiau hyn ar Nos Lun Mawrth 25ain, Nos Fawrth Mawrth 26ain a Nos Fercher Mawrth 27ain

CRhA – Bydd cyfarfod nesaf y GRhA ar nos Lun Ebrill 1af am 6 o'r gloch.

Bingo Pasg – Cynhelir Bingo Pasg a drefnir gan y GRhA, ar **nos Iau Ebrill 11eg**, gyda drysau yn agor am 6 o'r gloch. Bydd dydd Gwener Ebrill 5ed yn ddiwrnod di-wisg ysgol. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o siocled/wyau Pasg tuag at y Bingo.

Casglu plant yn gynnar o'r ysgol – Mae nifer cynyddol o rieni/ofalwyr yn dod i gasglu plant yn gynnar o'r ysgol o brif fynedfa'r ysgol. Hoffwn annog pob rhiant / ofalwr i wneud pob ymdrech i geisio osgoi gwneud hyn os nad oes gwir angen ac oni bai fod argyfwng. Mae'n gallu amharu ar addysg y plentyn, ac yn achosi anghyfleustra di-angen. Diolch am eich cydweithrediad.

Yn ddiffuant,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth